

Ionawr 2022

Blaenraglen Ofwat 2022-23 **– drafft ar gyfer ymgynghoriad**

Ofwat

Cynnwys

Rhagair	1. Cyflwyniad	2. Ein nodau strategol hyd at 2025 a thu hwnt ac aliniad â chanlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd
3	5	9
3. Sut mae ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Llywodraethau'r DU a Chymru	4. Gwariant	5. Cerrig Milltir
14	15	16
Atodiad: Lleihau beichiau rheoleiddiol		
18		

Rhagair

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi tynnu sylw, unwaith eto, at bwysigrwydd hanfodol dŵr i iechyd y cyhoedd, yn ogystal ag amgylchedd dŵr gwydn a ffyniannus. I gyd-fynd â phasio Deddf yr Amgylchedd yn gyfraith ym mis Tachwedd 2021 cafwyd trafodaeth gyhoeddus helaeth ar bryderon ynglŷn â llygredd o'r rhwydwaith dŵr gwastraff ac ansawdd ein hafonydd, gan ddangos diddordeb cynyddol y cyhoedd mewn dŵr a'i ôl troed amgylcheddol. Ategwyd hyn gan broffil uchel uwchgynhadledd COP26 yn Glasgow a'i chyseinnedd cryf i'r sector dŵr yn ogystal ag adroddiad diweddar y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol ar ansawdd dŵr mewn afonydd.



Mae'r craffu cynyddol hwn wedi dod ochr yn ochr â chyfres o heriau eraill i'r sector, gan gynnwys y pandemig Covid-19 parhaus a'r materion cadwyn gyflenwi sydd wedi effeithio ar gynifer o fusnesau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn Ofwat, rydym yn croesawu'r cydgysylltu a'r cynllunio parhaus sydd wedi digwydd ar draws y sector er mwyn ymateb i'r materion hyn. Serch hynny, rhaid i allu'r sector i ymateb i'r heriau enbyd hyn ddod gydag ymrwymiad parhaus i gyflawni a chynllunio ar gyfer y tymor hwy.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn rhoi ysgogiadau newydd i reoleiddwyr a rhwymedigaethau ar gwmnïau i wella'r amgylchedd dŵr. Bydd ein gwaith yn ymestyn ar draws yr her uniongyrchol o wella ansawdd dŵr mewn afonydd, a'r gwaith tymor hwy i gymell y sector i gyrraedd allyriadau Sero Net yn unol â thargedau'r llywodraeth. Rydym wedi mynegi'n glir ein pryderon ynglŷn â pherfformiad annerbyniol cwmnïau dŵr parthed rhyddhau carthion i'r amgylchedd ac rydym yn cymryd camau gyda'r llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn a dwyn cwmnïau i gyfrif. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y misoedd i ddod. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i wthio canlyniadau amgylcheddol gwell trwy Raglen Amgylchedd Genedlaethol y Diwydiant Dŵr (WINEP) a'r NEP yng Nghymru, a thrwy ddatblygu dulliau newydd o ddiogelu'r amgylchedd trwy ein cronfa arloesi.

Mae disgwyliadau cwsmeriaid o wasanaeth ac ymgysylltiad cwmnïau wedi newid yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac amlygodd ein gwaith y llynedd i ddeall profiadau cwsmeriaid yn ystod y pandemig her barhaus fforddiadwyedd, ac yn enwedig anghenion cwsmeriaid bregus. Bydd hon yn parhau i fod yn elfen bwysig o'n gwaith polisi, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n partneriaid yn CCW a sefydliadau eraill, a hefyd gyda chwsmeriaid a'u cynrychiolwyr, wrth i hyn ddatblygu.

Byddwn yn parhau i greu darlun cyflawn o berfformiad cwmnïau gan ddefnyddio ystod o ddata a mewnwelediadau. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i alluogi canlyniadau gwell ar draws y sector ac i dargedu gwelliannau lle bo angen. Disgwylwn hefyd i gwmnïau fod yn agored ac yn dryloyw gyda'u cwsmeriaid ynglŷn â sut maent yn perfformio. Byddwn yn parhau â'n gwaith i herio cwmnïau i gynnal strwythurau ariannol gwydn ac i fod yn dryloyw ynglŷn â'u penderfyniadau ariannu.

Y flwyddyn i ddod yw'r cam mawr cyntaf yn yr adolygiad prisiau nesaf, gyda chyhoeddiad ein fframwaith drafft ar gyfer PR24 yn yr haf. Wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r sector, bydd yn hyrwyddo dull hirdymor o roi gwerth i gwsmeriaid a'r amgylchedd a bydd yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Byddwn hefyd yn adolygu'r capiau ar brisiau manwerthu busnes ac yn archwilio sut y gallwn gryfhau trefniadau cyflenwyr y dewis olaf yn y farchnad manwerthu busnes.

Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn ariannol newydd, edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda llywodraethau'r DU a Chymru wrth iddynt osod blaenoriaethau newydd i ni yn eu Datganiadau Polisi Strategol (SPS), a hefyd gyda'n rheoleiddwyr sector sy'n bartneriaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed.

Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r sector ymateb yn effeithlon ac yn ystywyth i heriau newydd a pharhaus, a chanolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau a'r gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol. Mae ein tri nod strategol – trawsnewid perfformiad cwmnïau dŵr, ymateb i heriau hirdymor a rhoi mwy o werth i gwsmeriaid a'r amgylchedd – yn parhau i lunio ein rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel y nodir yn y tudalennau canlynol.

David Black
Prif Weithredwr dros dro

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y ddogfen hon. Anfonwch eich sylwadau unai mewn e-bost forward@ofwat.gov.uk gan ddefnyddio'r testun 'Blaenraglen Ofwat 2022-23 – drafft ar gyfer ymgynghoriad' neu drwy'r post i:

Forward Programme Consultation response
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener, 18 Chwefror 2022. Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymgynghoriad, cysylltwch â Jenny Block ar 0121 644 7645 neu drwy e-bost jenny.block@ofwat.gov.uk.

Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ein gwefan www.ofwat.gov.uk. Byddwn yn ystyried peidio â chyhoeddi eich ymateb os y nodwch eich bod yn ystyried unrhyw elfennau yn gyfrinachol. Hefyd, gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth – Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, Deddf Diogelu Data 2018, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol, gweler ein polisi preifatrwydd.

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch fod Cod ymarfer statudol o dan y [Ddeddf Rhyddid](#) Gwybodaeth sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau hyder. O ystyried hyn, esboniwch i ni pam rydych yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gallwn gynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymo Ofwat.

1. Cyflwyniad

Edrych ymlaen

Ein nod allweddol yw i'r sector dŵr ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid, diogelu'r amgylchedd a gwella bywyd drwy ddŵr nawr ac yn y dyfodol, ac adlewyrchir hyn yn ein Blaenraglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Ein tri nod strategol yw



Trawsnewid perfformiad cwmnïau

Ysgogi cwmnïau dŵr i gwrdd â heriau hirdymor trwy fwy o gydweithio a phartneriaethau

Er mwyn i gwmnïau dŵr ddarparu mwy o werth cyhoeddus, gan ddarparu mwy i gwsmeriaid, cymdeithas a'r amgylchedd

Mae'r nodau hyn a'r canlyniadau strategol yr ydym yn anelu at eu cyflawni yn adlewyrchu rôl cwmnïau dŵr mewn darparu gwasanaeth hanfodol, yr angen i'r sector ymateb i heriau difrifol a darparu'r gwelliannau ehangach y mae cymdeithas yn eu disgwyl, yn ogystal â'r effaith y disgwylw'n i'n rheoleiddio o'r sector dŵr ei chael. Byddwn yn adolygu ein cynnydd tuag at fynd i'r afael â'r heriau presennol a wynebir gan y sector yn barhaus. Rydym hefyd yn cydnabod, gydag effaith barhaus y pandemig Covid-19, ei bod yn debygol y bydd angen i ni fod yn hyblyg o ran ein dull a'n blaenoriaethau, gan gynnwys diwallu anghenion newidiol cwsmeriaid.

Bydd y themâu canlynol yn parhau i fod yn bwysig trwy weddill y cyfnod rheoli prisiau hwn ac wrth edrych tuag at PR24 a thu hwnt:

- **Yr Amgylchedd:** Mae gan y sector rôl ganolog i'w chwarae mewn mynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol a hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ac yn yr hirdymor. Rydym yn cynyddu ein ffocws ar faterion amgylcheddol a byddwn yn parhau i ysgogi gwelliannau ym mherfformiad amgylcheddol y sector nawr ac yn y dyfodol gan ddefnyddio ein holl offer rheoleiddio. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gwmpasu ystod eang o feysydd, gan gynnwys sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr a lleihau'r defnydd o orlifoedd storm, a chefnogi uchelgeisiau sero net a rheoli perygl llifogydd y sector. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, a sefydliadau eraill i sicrhau'r canlyniadau hyn a chynllunio ar gyfer gwahanol senarios posibl yn y dyfodol.
- **Canlyniadau cwsmeriaid:** Byddwn yn parhau i fganolbwyntio ar wella canlyniadau i gwsmeriaid preswyl a busnes trwy ein gwaith polisi rheoleiddio, gan ddwyn cwmnïau i gyfrif am berfformiad gwell. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fforddiadwyedd a bregusrwydd mewn perthynas â chwsmeriaid preswyl, gan adlewyrchu pryderon a amlygwyd yn ein hymgyrch ListenCareShare. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr achos dros amod trwydded newydd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn y flwyddyn i ddod. Bydd barn cwsmeriaid yn parhau i fod yn elfen allweddol wrth lunio cynlluniau cwmnïau ar gyfer PR24, ac ochr yn ochr â'r ymgysylltu y bydd cwmnïau'n ei wneud â'u cwsmeriaid, byddwn yn bwrw ymlaen ag ymchwil cwsmeriaid ar y cyd â CCW, gan gynnwys cwmnïau dŵr i sicrhau bod gennym ddata clir a chymaradwy ar farn cwsmeriaid i lywio ein penderfyniadau ar PR24.
- **Seilwaith mawr:** Bwriadwn ddefnyddio cystadleuaeth ar gyfer y farchnad lle bo'n briodol ar gyfer seilwaith mawr newydd trwy gaffael uniongyrchol i gwsmeriaid DPC neu lwybrau eraill (lle bo'n bosibl), gan greu cyfleoedd newydd i fuddsoddwyr. Yng nghyd-destun fframwaith RAPID, wrth i ni symud ymlaen â datblygiad prosiectau strategol, byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y prosiectau a'r cysylltiadau sydd ar y gweill rhwng y fframwaith cenedlaethol ar gyfer adnoddau dŵr, cynlluniau rhanbarthol a chynlluniau cwmnïau wedi'u halinio'n strategol, a bod goblygiadau o ran adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- **Data agored:** Mae hwn yn alluogwr ac offeryn allweddol i gefnogi trawsnewid gan y sector, ysgogi mwy o arloesi a chydweithio, annog modelau busnes a gwasanaethau newydd yn ogystal â gwell tryloywder. Rydym yn disgwyl i'r sector groesawu'r her hon a disgwyliwn i gwmnïau gadw'n gyfoes â'r economi ddigidol ehangach a disgwyliadau cwsmeriaid a gweld cynnydd mesuradwy o ran darparu data agored yn ystod y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau fod yn dryloyw gyda'r dystiolaeth y maent yn seilio penderfyniadau arni, gan gynnwys eu dewis o opsiynau wrth gynllunio adnoddau dŵr.
- **Cydweithio â phartneriaid rheoleiddio:** Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gydweithio â'n rheoleiddwyr partner yn y sector dŵr, gan fod yn fwy cydgysylltiedig ar draws ein priod gylchoedd gwaith. Mae hyn yn allweddol ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr, gwytnwch gweithredol parhaus ac i gyflawni uchelgeisiau amgylcheddol llywodraethau'r DU a Chymru. Mae hefyd yn hanfodol yng nghyd-destun cryfhau ein galluoedd cyfunol, gwella canlyniadau i gwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus a chefnogi arloesedd a buddsoddiad angenrheidiol.


Byddwn yn chwarae ein rhan mewn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion strategol llywodraethau'r DU a Chymru ar gyfer y sector. Rydym yn parhau i fod yn rhwym i'r datganiadau polisi a gwrthrychol strategol (SPS) presennol nes i'r datganiadau newydd ddod i rym, ond mae ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn yn adlewyrchu ystod o waith parhaus sy'n gyson â'r cyfeiriad a ystyrir ar hyn o bryd gan y ddwy lywodraeth. Rydym yn cydnabod y cyd-destunau polisi a chyfreithiol gwahanol yng Nghymru a Lloegr a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ym mhob gwlad i adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn yn ein dull rheoleiddio, gan gynnwys wrth gynllunio PR24.

Isod rydym yn nodi fesul pennawd y cynnydd wrth gyflawni'r tri amcan canolog yn ein strategaeth.

Trawsnewid perfformiad cwmnïau

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ein dealltwriaeth o berfformiad cwmnïau ac rydym wedi gweld rhai arwyddion cadarnhaol o well perfformiad mewn meysydd lle rydym wedi rhoi ffocws clir a her, yn enwedig mewn perthynas â gollyngiadau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ar reoli asedau a gwytnwch, a'r angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gollyngiadau dŵr gwastraff cwmnïau a gweithrediad gorlifoedd storm, yn dangos bod llawer mwy i'w wneud os yw cwmnïau am ddarparu'n effeithiol ac yn effeithlon ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Fel lleiafswm, mae angen i gwmnïau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Disgwylwn i gwmnïau fynd i'r afael â meysydd perfformiad gwael yn rhagweithiol ac yn brydlon a, lle bo angen, byddwn yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

Yn y farchnad manwerthu busnes, mae cyfranogwyr y farchnad wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i fynd i'r afael â gwrthdaro yn y farchnad, ond rydym o'r farn bod angen gweithredu brys ac wedi'i dargedu i wella ansawdd data'r farchnad a gwella cefnogaeth cwmnïau presennol i'r farchnad. Rydym yn gweithio gyda gweithredwr y farchnad (MOSL) a chyfranogwyr y farchnad i gymryd camau i ddatrys y gwrthdaro hwn, gan gynnwys trwy ddiwygio'r Fframwaith Perfformiad Marchnad (MPF) manwerthu busnes, a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2023-24. Yn y tymor byrrach rydym yn gweithio gyda MOSL a chyfranogwyr y farchnad i gyflwyno dull mwy cyfannol o fonitro a chryfhau perfformiad cwmnïau.



Rydym am weld gwerth i gwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd yn cael ei ddarparu trwy ddata agored. Mae hwn yn gyfnod pwysig i'r sector fod yn sefydlu rhai sylfeini allweddol ar gyfer data agored a byddwn yn gwerthuso'r cynnydd y mae'r diwydiant yn ei wneud yn ystod tymor yr Hydref 2022.

Paratoi i ymateb i heriau hirdymor

Un o'r pedwar nod allweddol ar gyfer PR24 yw cynyddu ffocws y sector ar yr hirdymor. Dim ond trwy ddull hirdymor y gellir ymateb i lawer o'r heriau sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys addasu i newid yn yr hinsawdd chyrraedd targedau allyriadau sero net. Dyna pam ein bod yn disgwyl i gwmnïau osod eu cynlluniau busnes pum mlynedd yng nghyd-destun strategaethau cyflenwi hirdymor, gyda'u camau gweithredu hirdymor arfaethedig a'u buddsoddiad yn cael eu hystyried yn nhermau 'llwybrau addasol', gyda sbardunau clir a phwyntiau penderfynu ar yr asesiad o'r opsiynau cywir i sicrhau canlyniadau hirdymor yn effeithlon.

Bu cynnydd sylweddol eleni o ran datblygu cynlluniau adnoddau dŵr strategol a chynllunio rhanbarthol cwmnïau, ac mae cerrig milltir pellach y flwyddyn nesaf wrth i gynlluniau symud ymlaen i gatiâu dau a thri o dan RAPID.

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn rhoi'r fframwaith ar waith ar gyfer targedau statudol clir er mwyn adfer byd natur mewn pedwar maes blaenoriaeth: ansawdd aer, bioamrywiaeth, dŵr a gwastraff. Byddwn yn cefnogi Defra i ddatblygu'r targedau sy'n berthnasol i'r sector ac yn parhau i gefnogi gwaith y Tasglu Gorlifoedd Storm, sy'n ceisio ysgogi gwelliannau a gostyngiadau tymor hwy yn y defnydd o orlifoedd storm. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 hefyd yn rhoi hwb y mae mawr ei angen ar gyfer cynllunio tymor hwy mewn perthynas â seilwaith draenio, yng nghyd-destun ehangach y system rheoli llifogydd ac adnoddau dŵr. Mae hyn yn cyd-fynd â datblygu polisi yng Nghymru, gan gynnwys o ganlyniad i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n rhoi fframwaith cyflenwi ar waith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Mae hyn i gyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ystyried eu blaenoriaethau buddsoddi a'u darpariaeth i gefnogi cwsmeriaid heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, gan ystyried y pwysau ar gostau byw ac ar filiau cyfleustodau y bydd cwsmeriaid yn eu hwynebu. Mae angen ystyried yr ystod lawn o ddatrysiadau posibl ar gyfer yr heriau cymhleth hyn, er mwyn sicrhau'r cynaliadwyedd a bioamrywiaeth gorau posibl yn yr hirdymor. Mae angen ffocws craff tebyg hefyd ar ddatrysiadau ar yr ochr galw, gan gynnwys mwy o fesurau effeithlonrwydd dŵr. Mae angen i ni weld cynnydd sylweddol ar weithredu gan y sector i ysgogi llai o alw.

Mae buddsoddiad yn y sector ar gyfer yr hirdymor ac rydym hefyd yn dechrau gweld gwahanol ddatrysiadau ariannu a chyfleoedd buddsoddi i'r rheini sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol a chyflawniad hirdymor a disgwyliwn i'r sector fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i gwmnïau dŵr gynnal strwythurau ariannol cadarn os ydynt am gyflawni eu rhwymedigaethau i gwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn ystyried opsiynau i gryfhau'r drefn reoleiddio bresennol er mwyn amddiffyn cwsmeriaid a'r amgylchedd yn well ac rydym yn disgwyl i gwmnïau ddangos sut mae eu trefniadau ariannu yn rhoi ystyriaeth i fuddiannau cwsmeriaid.

Gwell gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol

Gwnaethom gyhoeddi egwyddorion i gefnogi datblygiad ein dull ein hunain a dull cwmnïau ar gyfer gwerth cyhoeddus ac mae'r rhain wedi'u croesawu'n gyffredinol. Rydym eisoes yn gweld sut y gellir cymhwysu'r dull hwn mewn rhai meysydd polisi craidd, megis yr amgylchedd (WINEP/NEP) a PR24, ac mae wedi bod yn un o bum thema ein cronfa arloesi. Disgwyliwn gwblhau'r egwyddorion yn fuan ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn cael eu hymgorffori'n fwy yn niwylliant a phenderfyniadau cwmnïau.

Mae angen i'r sector ganolbwyntio mwy fyth ar gwsmeriaid, gyda chwmnïau'n gweithio'n galetach i drawsnewid ei allu i wasanaethu cwsmeriaid, gan gynnwys trwy wella effeithiolrwydd eu prosesau cwyno. Rydym yn disgwyl i gwmnïau allu ymateb i'r amrywiaeth lawn o anghenion cwsmeriaid, yn enwedig cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus, a rhoi cefnogaeth lawn i gwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n cael trafferth talu eu biliau. Gwnaethom [cymgyngori'n](#) ddiweddar ar adolygu ein canllawiau ar sut y gallai cwmnïau wneud mwy i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid dalu eu biliau, gan gynnwys cwsmeriaid mewn dyled, a'n nod yw cwblhau ein canllawiau yn gynnar yn 2022. Byddwn yn cynnal yr ysgogiad i gwmnïau yn y sectorau dŵr ac ynni ddatblygu datrysiadau ar gyfer rhannu data'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth.

Fel rhan o'n gwaith sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, rydym yn gwneud cynnydd o ran dyfnhau ein dealltwriaeth a'n sgiliau, gan gynnwys trwy ein gwaith ar y cyd â CCW ond hefyd trwy ymgysylltu mwy â sefydliadau defnyddwyr eraill, i sicrhau bod barn cwsmeriaid yn cael ei hystyried yn ein dull rheoleiddio, gan gynnwys PR24.

Rydym yn nodi isod sut mae ein gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu ein nodau strategol craidd ac yn rhoi'r canlyniadau cwsmeriaid ac amgylcheddol a nodwyd gennym yn ein strategaeth, [‘Amser i weithredu, gyda'n gilydder’](#) (adran 2); sut mae ein gwaith yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a osodwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (adran 3); yr amcangyfrif o'r gwariant cyffredinol y disgwyliwn ei wneud yn ystod y flwyddyn wrth gyflawni ein swyddogaethau (adran 4); a chyflawniadau carreg filltir yn ein blaenraglen (adran 5). Mae'r Atodiad yn nodi rydym yn bwriadu cyflawni ein rhwymedigaethau o ran gwell rheoleiddio.

2. Ein nodau strategol hyd at 2025 a thu hwnt ac aliniad â chanlyniadau i gwsmeriaid a'r amgylchedd

Nod ein strategaeth yw ysgogi'r canlyniadau canlynol:

- gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da;
- gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy; a
- cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd.

Rydym wedi nodi ein disgwyliadau o gwmnïau o ran yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i'n helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn. Rydym hefyd yn cydnabod yn llawn bod angen i ni adolygu ein gweithrediadau ein hunain yn barhaus fel y gallwn barhau i wella er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol a'r targedau uchelgeisiol yr ydym wedi'u gosod.

Isod, rydym yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni yn 2022-23 yn erbyn ein canlyniadau cwsmeriaid ac amgylcheddol.

Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel o ansawdd da

Byddwn yn datblygu ymhellach ein gwaith craffu a thryloywder perfformiad cwmnïau, gan ddefnyddio data a mewnwleidiad gwell i gynyddu ein ffocws ar feysydd gweithgarwch lle mae angen gwella perfformiad, er enghraifft i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr. Bydd hyn yn cynnwys mewnwleidiad gan Adroddiadau Perfformiad Blynyddol cwmnïau a meysydd o orberfformiad a thanberfformiad yn erbyn ymrwymïadau perfformio cwmnïau, a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar berfformiad y sector.

Byddwn yn ymgysylltu'n benodol â chwmnïau lle mae angen iddynt wneud newidiadau er budd eu cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Byddwn yn canolbwyntio ein datblygiad polisi, yng nghyd-destun PR24 ac yn ehangach, ar fynd i'r afael â meysydd lle rydym yn disgwyl gweld gwelliant i fynd i'r afael â niwed i fuddiannau cwsmeriaid a'r amgylchedd, e.e. lleihau defnydd ac effaith gorlifoedd storm a gwella gwytnwch gweithredol, gan gynnwys rheoli asedau.

Byddwn yn parhau â'n hymgyrch i weld y sector yn cydweithio i archwilio'r cyfleoedd a'r manteision y gall dull mwy agored ar gyfer data eu cynnig er budd cwsmeriaid a'r amgylchedd, gan gynnwys yn y sector manwerthu busnes lle mae angen gwneud cynnydd ar frys i wella ansawdd gwael data cwsmeriaid, defnydd ac asedau. Rydym eisoes wedi gweld gwelliannau yn y maes hwn, yn enwedig trwy ein cronfa Arloesi ond mae mwy y gellid ei wneud. Yn ['H2Open – Open data in the water industry: a case for change'](#), rydym yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer data agored ac ar gyfer cynnydd mesuradwy i'w wneud a byddwn yn ei adolygu yn nhymor yr Hydref 2022.



Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Byddwn yn ymgynghori ar ac yn cwblhau ein methodoleg ar gyfer PR24 gyda mwy o ffocws ar gynllunio addasol tymor hwy.

Byddwn yn gweithio gyda'n rheoleiddwyr partner ac yn ysgogi'r sector i wella ei berfformiad amgylcheddol o ddydd i ddydd er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd dŵr, yn enwedig o ran digwyddiadau llygredd difrifol.

Byddwn yn chwarae ein rhan yn y gwaith o roi mesurau newydd ar waith o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 i leihau'r defnydd o orlifoedd storm gan gwmnïau yn Lloegr ac effeithiau andwyol gorlifoedd ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, gan gymryd camau rheoleiddio cadarn lle bo angen er mwyn sicrhau gwelliannau hirdymor sylweddol. Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'n hymchwiliad, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021, i'r modd y mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn gweithredu eu gwaith trin carthion.

Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad cynlluniau adnoddau dŵr rhanbarthol drafft, ac yn disgwyl gweld aliniad cynyddol rhwng y rhain a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr drafft cwmnïau y byddwn yn eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, ochr yn ochr â datblygu datrysiadau adnoddau dŵr sy'n cael eu hystyried trwy RAPID.

Gan roi ystyriaeth i ddiweddariad cwmnïau i Defra ar addasu i newid yn yr hinsawdd, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r offer sydd ar gael i ni er mwyn gwella ffocws, tryloywder ac effaith dulliau cwmnïau o fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd.

Yn dilyn rhyddhau'r canllawiau WINEP newydd ym mis Rhagfyr 2021, bydd ein gwaith ar y WINEP yn symud i gam newydd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gallu'r sector i roi datrysiadau seiliedig ar natur a dalgylch ar waith (pan mai'r rheini yw'r dull cywir) i sicrhau nifer o fuddion i'r amgylchedd, gan wneud y gorau o'n dull o asesu cynlluniau cwmnïau o dan WINEP a gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod y cynlluniau 'gwerth gorau' yn cael eu nodi, y buddsoddir ynddynt ac y cânt eu gwerthuso.

Byddwn yn parhau i herio'r sector yn ei uchelgeisiau i gyflawni sero net trwy gyfeirio at dargedau'r llywodraeth, gan gwmpasu allyriadau gweithredol a chorfforedig a pharchu'r hierarchaeth lleihau carbon.

Byddwn yn parhau i alinio ein gwaith ar wasanaethau datblygwyr / NAV i gefnogi'r amgylchedd trwy bolisïau i hyrwyddo draenio mwy cynaliadwy a mwy o effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi newydd.

Byddwn yn cynnal ein harolwg a'n trosolwg o gamau cwblhau prosiect Twannel Thames Tideway gyda ffocws cynyddol ar gomisiynu a derbyn systemau i sicrhau'r buddion disgwyliedig.

Gwerth am arian i gwsmeriaid, a fforddiadwyedd

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglen Mewnwelediad Cwsmeriaid i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth o flaenoriaethau, disgwyliadau a phrofiadau cwsmeriaid.

Byddwn yn gweithio gyda CCW i fwrw ymlaen ag argymhellion o'i adolygiad fforddiadwyedd, gan gynnwys annog cwmnïau dŵr i roi argymhellion ar waith i wella ymwybyddiaeth cwsmeriaid o gymorth fforddiadwyedd a mynediad ato.

Byddwn yn cymryd rhan yn y grŵp a sefydlwyd gan Defra a Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu dull newydd o ymdrin â thariffau cymdeithasol er mwyn darparu cymorth i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau.

Trwy ein methodoleg ar gyfer PR24, byddwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau fynd i'r afael yn gadarn â fforddiadwyedd a derbynioldeb eu cynlluniau a'i gwneud yn ofynnol iddynt archwilio modelau cyflenwi newydd a allai roi gwell gwerth am arian i gwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i ysgogi'r sector i ymgysylltu'n adeiladol â datblygiad rhannu data'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth rhwng y sectorau dŵr ac ynni.

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i ystyried mesurau amddiffyn ychwanegol i gwsmeriaid, ac yn enwedig cwsmeriaid bregus, gan gynnwys trwy ddatblygu amod trwydded newydd.

Byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn rhannu dysgu ac arfer gorau – er enghraifft, trwy barhau i fod yn aelod rhagweithiol o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU ar faterion defnyddwyr a Fforwm Defnyddwyr y Llywodraeth.

Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r capiau ar brisiau manwerthu busnes, ac yn parhau i geisio cryfhau'r amddiffyniadau i gwsmeriaid dibreswyl pe bai manwerthwr yn gadael.

Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda chyfranogwyr y farchnad manwerthu busnes, gan gynnwys y Panel Strategol newydd, i ddatrys gwrthdaro yn y farchnad, gwella effeithlonrwydd dŵr yn y sector dibreswyl, a dileu rhwystrau i arloesi.

Byddwn yn parhau i fireinio ac optimeiddio ein defnydd o offer sy'n seiliedig ar farchnadoedd yn fwy cyffredinol er mwyn rhoi mwy o fuddion i gwsmeriaid, gan gynnwys trwy arloesi, gwell effeithlonrwydd, a buddsoddiad cynaliadwy tymor hwy.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Defra, cwmnïau a rhanddeiliaid eraill i ystyried newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio er mwyn galluogi rheolau codi tâl cysylltiad newydd i ddod i rym ar gyfer cwmnïau yng Nghymru o fis Ebrill 2023, gan arwain at daliadau mwy tryloyw a rhagweladwy i ddatblygwyr.



Cwmnïau yn gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd

Yn ogystal â ffocws ein gwaith yn PR24 ar y tymor hir, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd cwmnïau o ran rheoli gollyngiadau lle maent wedi cael eu herio gan Defra i haneru gollyngiadau ar draws y diwydiant erbyn 2050, gan gynnwys ystyried ffyrdd newydd o gefnogi cwsmeriaid i fynd i'r afael â gollyngiadau ar eu heiddo.

Byddwn yn cymryd yr hyn a ddysgwyd o ddwy flynedd gyntaf y gronfa arloesi, yn gwneud y gorau o'n dull o dargedu meysydd polisi allweddol, yn ceisio cyfranogiad ehangach yn y gronfa, ac yn parhau i hyrwyddo'r broses orau o rannu canlyniadau gyda chyfranogwyr a'r sector.

Byddwn yn gwneud cynnydd pellach o ran datblygu a chyflawni prosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol rhaglen RAPID, gan gynnal y gwaith craffu gât dau ar gyfer y prosiectau hynny sydd ar y llwybr safonol ac asesiad giât tri ar gyfer y prosiectau hynny sydd ar y llwybr carlam.

Byddwn yn adolygu'r achosion busnes strategol ac amlinellol ar gyfer cynlluniau DPC allweddol, gan gynnwys ar gyfer Southern Water, cynllun Anglian Middlegate a chynllun Cwm Taf Dŵr Cymru.

Byddwn yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau DPC cyntaf ac o'r broses gymeradwyo â gatiâu trwy RAPID i roi arweiniad i'r sector, ac yn symleiddio prosesau presennol lle y gallwn. Byddwn hefyd yn parhau i chwarae ein rhan i annog cyfalaf a chyllid newydd i'r sector trwy'r cynlluniau hyn.

Byddwn yn parhau i annog cwmnïau i sicrhau eu bod yn cynnal lefelau o wytnwch ariannol sy'n adlewyrchu natur hanfodol y gwasanaeth a ddarperir ganddynt, a byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith gyda'r sector i sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu gwarchod.

Byddwn yn ymgorffori'r egwyddorion ar werth cyhoeddus yn ein gwaith polisi a Busnes fel Arfer, gan sicrhau bod cwmnïau'n canolbwyntio ar ddarparu gwerth ehangach i gymdeithas a'r amgylchedd wrth ddarparu eu gwasanaethau craidd.



Gwelliant parhaus Ofwat

Byddwn yn parhau â'n gwaith i'w gwneud hi'n haws i gyflawni pethau yn Ofwat trwy wella busnes yn barhaus a'n gwaith cynllunio tymor canolig hyd at Ofwat 2025.

Byddwn yn parhau i roi ein strategaeth pobl ar waith fel ein bod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, yn amrywiol ac yn gynhwysol – lle gwych i weithio lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Byddwn yn parhau i roi ein strategaethau TG a data ar waith er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd ac i awtomeiddio tasgau lle bo hynny'n bosibl i wneud gwaith yn fwy gwerth chweil i'n pobl a gwella ein mewnwelediad.

Byddwn yn parhau i wella ein gwerthusiad a byddwn yn defnyddio hyn i wella ein heffeithiolrwydd mewn sicrhau newid yn y diwydiant er budd cwsmeriaid.

3. Sut mae ein gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Llywodraethau'r DU a Chymru

Dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991, gall Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi datganiadau sy'n nodi blaenoriaethau strategol ac amcanion ar gyfer Ofwat. Mae gofyn i ni weithredu yn unol â'r datganiadau hyn wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud â chwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru a Lloegr yn y drefn honno. Cwblhawyd datganiadau polisi strategol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i Ofwat a daethant i rym yn ystod 2017-18. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y broses o gyhoeddi datganiadau polisi strategol wedi'u diweddarau ar ddiwedd 2021/2022. Wrth ddatblygu ein Blaenraglen, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r SPS drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, a thrafodaethau â Llywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i ni mewn blaenraglen ddangos sut mae ein gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cyd-fynd â'r amcanion a'r blaenoriaethau sydd yn y Datganiadau Polisi Strategol. Trwy gyfeirio at y datganiadau presennol, mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'r gwaith rydym yn bwriadu ei wneud o dan bob un o'n canlyniadau cwsmeriaid:

Amcanion SPS Cymru	Ein canlyniadau i gwsmeriaid	Amcanion SPS Defra
Ffocws cwsmer cryf Fforddiadwyedd Arloesedd	Gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff dibynadwy, gwydn, diogel ac o ansawdd da	Diogelu cwsmeriaid
Marchnadoedd a chystadleuaeth pan fo hynny'n briodol	Gwerth am arian i gwsmeriaid, cadw biliau'n fforddiadwy	Gwneud i farchnadoedd weithio
Gwynwch Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	Gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Sicrhau gwynwch hirdymor
Fforddiadwyedd a gwynwch hirdymor	Cwmnïau'n gweithredu er budd hirdymor cymdeithas a'r amgylchedd	

4. Gwariant

Telir ein gofynion o ran gwariant gan ffioedd trwyddedau, a delir yn y pen draw gan gwsmeriaid yn eu biliau dŵr a dŵr gwastraff. Rydym yn adennill y ffioedd trwydded hyn gan y cwmnïau dŵr a reoleiddir gennym ac mae unrhyw gyllid nas defnyddir yn cael ei ddychwelyd i'r cwmnïau ac felly i'r cwsmeriaid. Amcangyfrifir mai cost Ofwat yn 2022-23 fydd £1.22 (£1.20 yn 20-21) fesul cwsmer a bydd yn helpu i gyflawni'r nodau strategol a'r cerrig milltir a nodir yn y ddogfen hon.

Cymeradwyodd Llywodraeth y DU gyllideb arian gwastad tair blynedd gyda chynnydd cymedrol ar gyfer gwaith ychwanegol ar yr Amgylchedd a Chaffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid fel rhan o'r adolygiad gwariant diwethaf. Yn 2022-23 mae hyn yn cyfateb i gyllideb flynyddol o £32.3 miliwn, sef gostyngiad cyffredinol mewn termau real. Mae cyllideb Graidd Ofwat yn ddarostyngedig i unrhyw ddyfarniad cyflog Gwasanaeth Sifil fel y bydd yn cynyddu yn unol â chyhoeddiadau cyflog ehangach y Gwasanaeth Sifil.

Ein nod yw cyflawni ein cyfrifoldebau yn effeithiol ac effeithlon ac, fel rhan o'n gwelliannau busnes, rydym wedi dechrau gweithredu systemau newydd a fydd yn rhoi arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella effeithiolrwydd.

Rydym yn parhau i deimlo y dylai gwaith mewn perthynas â phrosiectau DPC gael ei gwmpasu ar draws pob cwmni o ystyried y buddion ehangach sy'n deillio o wersi a ddysgir o'r prosiectau cynnar hyn. Mae cyfanswm amcangyfrifedig ffi'r drwydded o £32.3 miliwn yn cynnwys £0.5 miliwn gan Thames Tideway, £1.3 miliwn gan Drwyddedu Cyflenwi Dŵr a Charthffosiaeth (WSSL) a'r gweddill yn gyllideb graidd Ofwat.

Newidiadau i'n gwaith arfaethedig

Fel rhan o'n rôl mae'n ofynnol i ni wneud amrywiaeth o waith megis trwyddedu cwmni ac ymchwiliadau gorfodol. Rydym yn cynllunio ein hadnoddau ar sail lefelau penodol o'r gweithgareddau hyn ond os ydym yn derbyn mwy o geisiadau neu angen cynnal mwy o ymchwiliadau nag a ddisgwylir, efallai bydd angen ail-flaenoriaethu gwaith arall. Byddwn yn rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid os oes newidiadau sylweddol.

5. Cerrig Milltir

Ebrill – Mehefin 2022

Asesiad gât tri o brosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol rhaglen RAPID ar y llwybr carlam

Cyhoeddi ein hargymhellion yn dilyn ymgynghoriad Fframwaith Rheoleiddiol a Masnachol RAPID

Cyhoeddi canllawiau ar ein Fframwaith Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid

Gwerthuso cyfnod peilot y gronfa arloesi ac ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol

Bwrw ymlaen ag argymhellion ein hasesiad cychwynnol o gydymffurfiaeth cwmnïau â gofynion Llif i Driniaeth Lawn eu trwyddedau amgylcheddol

Symud ymlaen ac ymgynghori ymhellach ar ein gwaith ar wytnwch ariannol

Gorffennaf – Medi 2022

PR24 – ymgynghori ar ein methodoleg ddrafft ar gyfer gosod y terfynau referniw, ymrwymadau perfformiad a fframwaith cymhelliant ('rheolaethau prisiau') ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff rhanbarthol

Manwerthu busnes – ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â chapiau ar brisiau manwerthu busnes Cefnogi datblygiad cynlluniau rhanbarthol drafft

Cyhoeddi a gosod ein cyfrifon blynyddol 2021-22 gerbron Senedd y DU a'r Senedd i roi cyfrif am ein gwaith a'n gwariant yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn hefyd yn egluro sut rydym wedi cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a osodwyd ar ein cyfer gan Lywodraethau'r DU a Chymru

Hydref – Rhagfyr 2022

Manwerthu busnes – cyhoeddi penderfyniadau sy'n ymwneud â'r capiau ar brisiau manwerthu busnes (gweithredu o fis Ebrill 2023)

Cyhoeddi penderfyniadau mewn cyfnod ar gyfer yr 17 cwmni mwyaf fel y gellir adennill unrhyw daliadau cymhelliant sy'n ddyledus ym mlwyddyn codi tâl 2023-24

Cyhoeddi tablau cynghrair blyneddol ar wasanaeth cwmnïau i'w cwsmeriaid: mesur profiad gwasanaeth cwsmeriaid (C-MeX) i'w cwsmeriaid preswyl a mesur o brofiad gwasanaethau datblygwyr (D-MeX) i'w cwsmeriaid ddatblygwyr

Cyhoeddi Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol 2022-23 terfynol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad perfformiad blyneddol yn cael ei baratoi'n gyson yn unol â'n fframwaith rheoleiddio cyffredinol

Cyhoeddi ein hadroddiadau Cyflenwi Gwasanaethau a Monitro Cadernid Ariannol

Yn dilyn ein hymgyngoriad, cyhoeddi ein methodoleg derfynol ar gyfer gosod y rheolaethau prisiau ar gyfer cwmnïau rhanbarthol y tu hwnt i 2025.

Cwblhau'r adolygiad o gynnydd y diwydiant ar ddata agored

Asesiad gât dau o brosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol rhaglen RAPID ar y llwybr safonol Ymgynghoriad WRMP drafft

Ionawr – Mawrth 2023

Penderfyniadau terfynol gât dau ar gyfer prosiectau seilwaith cyflenwad dŵr strategol rhaglen RAPID ar y llwybr safonol

Atodiad: Lleihau beichiau rheoleiddiol

Er mwyn i Ofwat wneud y cyfraniad mwyaf posibl at wella bywyd trwy ddŵr, mae hyn angen cydbwysedd o ran ein dull ar gyfer rheoleiddio: mae angen i gwmnïau weithredu o fewn cyd-destun fframwaith rheoleiddio priodol, gan gynnwys ymyrraeth lle bo angen, a hefyd gyda pherchnogaeth ac atebolrwydd am weithredu eu busnesau a'r rhyddid mwyaf posibl o fewn cyfyngiadau angenrheidiol.

Wrth gyflawni ein gwaith rydym yn ystyried egwyddorion arfer rheoleiddio gorau, gan gynnwys y dylai ein gweithgareddau fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu, fel sy'n ofynnol gan adran 2(4) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r ddyletswydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008 yn rhan arall o'r fframwaith hwn o well rheoleiddio. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i ni:

- adolygu'r beichiau rheoleiddio yr ydym yn eu gosod neu'n eu cynnal;
- cael gwared ar unrhyw rai sy'n ddiangen ac na ellir eu cyfiawnhau; ac
- adrodd bob blwyddyn ar sut y bwriadwn gyflawni'r ddyletswydd hon wrth i ni wneud ein gwaith rheoleiddio.

Bob blwyddyn, rydym yn ceisio sicrhau bod beichiau rheoleiddio yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl tra'n sicrhau bod cwmnïau'n darparu'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid. Rydym yn adolygu ein dull rheoleiddio yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r mecanwaith mwyaf priodol i sicrhau'r canlyniadau gorau a bodloni ein rhwymedigaethau o dan y ddwy Ddeddf.

Mae ein dull ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn hefyd yn parhau i esblygu er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn ein strategaeth yn well. Agwedd allweddol yw ein gwaith parhaus i sicrhau gwelliannau i dryloywder data cwmnïau a byddwn yn parhau i weithio arno ac yn ei adolygu yn y flwyddyn i ddod. Bydd data o ansawdd gwell, ynghyd â mwy o dryloywder, yn cefnogi ein gwaith i sicrhau mai'r ysgogiadau rheoleiddio sydd ar waith yw'r rhai cywir a bod ymyrraeth yn cael ei thargedu'n gywir a bod atebolrwydd cwmnïau'n glir.

Ffyrdd eraill y byddwn yn mynd i'r afael â beichiau rheoleiddio yw trwy ein cydweithrediad parhaus â phartneriaid rheoleiddio, sydd, ymhlith canlyniadau cadarnhaol eraill, yn ceisio rhoi rheoleiddio i gwmnïau sy'n fwy cyson a symlach, ac yn llai beichus, a'n bwriad i ddatblygu ein dull gwerthuso ymhellach, gan sicrhau bod cwestiynau ynglŷn ag addasrwydd a chymesuredde unrhyw feichiau yn cael eu hadlewyrchu ar y cam cywir yn ein penderfyniadau.

Bydd yr allbynnau y bwriadwn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod hefyd yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'r dull a amlinellir yma; er enghraifft, bydd ein methodoleg PR24 arfaethedig yn cael ei thargedu er mwyn canolbwyntio ar feysydd ac ymddygiadau a fydd, yn ein barn ni, yn herio ac yn ysgogi cwmnïau i gyflawni canlyniadau allweddol.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn rheoleiddio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch I nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gov.uk.

OGL